ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU

Cyfleoedd Llawrydd: Drama

Rydym yn ceisio cynyddu ein tîm o ymarferwyr llawrydd mewn amrywiaeth o rolau ar draws yr adran Ddrama.

Mae cyflogi gweithwyr proffesiynol yn sicrhau bod ein cyrsiau'n parhau i gael eu llywio gan arferion diweddaraf y diwydiant a bod ein myfyrwyr yn cael y profiad o weithio gydag amrywiaeth o ymarferwyr gwahanol.

Mae gennym gyrsiau **Actio**, **Theatr Gerddorol, Rheolaeth Celfyddydau, Rheoli Llwyfan a Theatr Dechnegol, Cynllunio ar gyfer Perfformio** ac **Adeiladu Golygfaol** yn ogystal â'n rhaglenni **Stiwdio Actorion Ifanc** a **Chelfyddydau Cynhyrchu Pobl Ifanc**.

Gallai cyfleoedd llawrydd gynnwys:

- Cyfarwyddwyr ar gyfer prosiectau a chynyrchiadau
- Goruchwylwyr Cynhyrchu a Goruchwylwyr Cynllunio/Gwisg ar gyfer prosiectau a chynyrchiadau
- Ymarferwyr arbenigol ar gyfer Dosbarthiadau Meistr a Gweithdai
- Tiwtoriaid a Darlithwyr i gyflwyno dosbarthiadau academaidd a sgiliau

Rydym wedi ymrwymo i greu gweithlu sy'n cynrychioli cymdeithas. Ar hyn o bryd, mae pobl o gymunedau ethnig amrywiol, y rhai sy'n nodi eu hunain yn anabl, niwroamrywiol a thrawsrywiol, ac unigolion Cymraeg eu hiaith yn cael eu tangynrychioli, felly rydym yn awyddus i glywed gan ymgeiswyr o'r grwpiau hyn sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio gyda ni, e-bostiwch gopi o'ch CV a llythyr eglurhaol yn nodi eich arbenigedd i drama@rwcmd.ac.uk